## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1029) (Cy.96) ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliadau 2007 yn pennu'r triniaethau a ganiateir nad yw'r tramgwyddau yn adran 5(1) a (2) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45) yn gymwys iddynt os rhoddir y triniaethau hynny yn unol â'r gofynion perthnasol. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer triniaethau tocio pigau y caniateir eu gwneud yn achos ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol ac ieir dodwy (gan gynnwys cywion y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy).

Mae rheoliad 2(2) yn mewnosod diffiniad o "iâr fwyta a fegir yn gonfensiynol". Diwygir paragraff A1 (Pob triniaeth yn yr adran ar adar yn Atodlen 1) o Atodlen 4 (Adar: Gofynion wrth roi triniaethau penodol a ganiateir) i gyfyngu ar y triniaethau y caniateir eu rhoi i ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol (rheoliad 2(3)(a)). Mae'r newidiadau'n rhoi ar waith baragraff 12 o Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 2007/43/EC sy'n gosod y rheolau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir a gedwir er mwyn cynhyrchu cig (OJ Rhif L 182, 12.7.2007, t.19).

Mae rheoliad 2(3)(b) yn amnewid paragraff 5 newydd yn Atodlen 4 i Reoliadau 2007. Mae is-baragraffau (4) a (5) o'r paragraff 5 newydd yn cyflwyno newidiadau i'r driniaeth ar gyfer tocio pigau ieir dodwy a chywion y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy mewn sefydliadau sydd â 350 neu fwy o ieir dodwy. Mae'r newidiadau'n rhoi ar waith y rhanddirymiad ym mharagraff 8 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy (OJ Rhif L 203, 3.8.1999, t.53).

Effaith is-baragraff (4) o'r paragraff 5 perthnasol yw y caiff person wedi ei hyfforddi ddefnyddio technoleg is-goch yn unig i dynnu hyd at draean o big isaf ac/neu uchaf adar o dan 10 niwrnod oed er mwyn atal pigo plu neu ganibaliaeth. Mae is-baragraff (5) yn datgymhwyso'r gofyniad i ddefnyddio technoleg is-goch ac i roi'r driniaeth yn unig i adar sydd o dan 10 niwrnod oed pan fo tocio pigau yn cael ei wneud mewn argyfwng i reoli brigiad o bigo plu neu ganibaliaeth. Ond mewn achos o'r fath bydd y gofynion yn is-baragraffau (1), (2) a (3) yn parhau i fod yn gymwys.

Effaith is-baragraff (6) o'r paragraff 5 perthnasol yw bod tocio pigau ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol yn cael ei ganiatáu pan fo'r adar o dan 10 niwrnod oed er mwyn atal pigo plu neu ganibaliaeth. Rhaid i driniaeth o'r fath gael ei rhoi gan berson sydd wedi ei hyfforddi'n addas yn dilyn ymgynghori â milfeddyg a chael cyngor ganddo.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei baratoi. Gellir cael copïau oddi wrth y Tîm Lles Anifeiliaid, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.